Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Kevin Foster AS
Y Gweinidog dros Ffiniau'r Dyfodol a Mewnfudo
Y Swyddfa Gartref

17 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog,

## Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - gwaith dilynol

Mae Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd wedi cynnal ymchwiliad dilynol i'r newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit.

Aeth y Pwyllgor i'r afael â'r pwnc hwn am y tro cyntaf yn 2019, gan arwain at gyhoeddi ein hadroddiad ar newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit – y goblygiadau i Gymru, ar 8 Tachwedd 2019. Yn ystod yr ymchwiliad dilynol clywsom dystiolaeth gan ddinasyddion yr UE a sefydliadau partner, academyddion, a Llysgennad yr UE i'r DU.

Rydw i wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i amlinellu argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, ac amgaeaf gopi er gwybodaeth i chi.

Clywsom dystiolaeth hefyd mewn perthynas â meysydd y tu hwnt i gymhwysedd Llywodraeth Cymru, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i godi'r rhain gyda chi fel pwyntiau y bydd Llywodraeth y DU efallai am eu hystyried.

Wrth ystyried y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, clywsom dystiolaeth gan Marley Morris, o'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 30 Mehefin 2021. Dywedodd Mr Morris nad oedd yn glir pa amgylchiadau a fyddai'n cael eu hystyried yn sail resymol pe bai'r dyddiad cau yn cael ei golli.

Yn sgil y dystiolaeth hon, byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

- rhoi mwy o wybodaeth am y sail resymol ar gyfer gwneud cais yn hwyr i'r cynllun;
- yr achos dros gydnabod newid mewn amgylchiadau oherwydd pandemig COVID-19 fel sail resymol; ac
- a ellir ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed wrth asesu a oes sail resymol.

Lleisiodd Claire Thomas o Sefydliad Bevan bryderon ynghylch natur ddigidol-yn-unig y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a'r diffyg dogfennau ffisegol fel prawf o statws, gan gymharu'r sefyllfa â sgandal Windrush.

Ategwyd y pryder hwn gan ddinesydd o'r UE a ddywedodd wrthym: "*I can't help but think that 20 years from now, there'll be another Windrush type scenario, where we'll be told to go home.*"

Yn ein barn ni, mae'n werth ystyried rhoi dogfennau ffisegol fel prawf o statws preswylydd sefydlog a statws preswylydd cyn-sefydlog. Byddwn yn ddiolchgar am eich barn ynghylch a yw Llywodraeth y DU yn barod i ystyried rhoi dogfennau ffisegol fel prawf o statws.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb erbyn dydd Mercher 10 Mawrth 2021 fel y gellir ei roi gerbron y Pwyllgor cyn diwedd y Senedd hon.

Rwy'n copïo'r ohebiaeth hon i Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn y Senedd.

Yn gywir,

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.